# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 4 Hydref, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, C.M. Cowpe, R. Fisher, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman, H.M. Payne a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles),

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr C.A. Cave ac A.M. Collins.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Medi, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – NODI cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg atodedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran cyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 fel y'i haliniwyd ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn unol ag adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 .

EITEM AGENDA 5. MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST, 2022 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.

(2) NODI'r trefniadau i wneud iawn am y gorwariant sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022/23 yn ogystal â phwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23.

EITEM AGENDA 6. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS) (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi goblygiadau parhaus dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer o ran trefniadau ar gyfer Diogelu oedolion nad ydynt yn gallu cydsynio i'w hanghenion gofal a llety.

(2) Y dylid cyferio'r adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r risg i'r Cyngor o her gyfreithiol lle na chyrhaeddir yr amserlenni statudol.

(2) Mae Aelodau'n ymwybodol o'r cynllunio ar gyfer y Trefniadau Diogelu Rhyddid i'r dyfodol a'r newidiadau y bydd hyn yn eu cyflwyno i gyfrifoldebau'r Cyngor ar gyfer unigolion sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid oherwydd eu hanghenion gofal a chymorth yn ogystal â'r cynnydd a wnaed gyda'r ôl-groniad o geisiadau a'r newidiadau deddfwriaethol disgwyliedig.

EITEM AGENDA 7. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU CHWARTER 1AF AC 2IL 2021/22 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2022/23 (PW) –

ARGYMHELLWYD –

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A, B ac C i'r adroddiad.

(2) Y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Rhaglen Gwaith Cychwynnol wedi'i diweddaru ar gyfer 2022/23, fel y'i hatodwyd yn Atodiad D i'r adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i’r cyhoedd.